




'Siarad Gyda Fi'



Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, iaith a Chyfathrebu ym mis Tachwedd 2020 (<https://llyw.cymru/siarad-gyda-fi-cynllun-cyflawni-ar-gyfer-lleferydd-iaith-chyfathrebu>). Nod y cynllun cyflawni traws-lywodraethol yw sicrhau bod plant ledled Cymru yn gallu cael gafael ar gymorth arbenigol, o ansawdd uchel, cyffredinol ac wedi'i dargedu yn y blynyddoedd cynnar i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Y cynllun trawsbynciol hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig.

Datblygwyd y cynllun mewn ymgynghoriad â Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith a rhanddeiliaid allweddol i nodi'r hyn sy'n gweithio i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a nodi camau gweithredu at y dyfodol.



Mae'r cynllun cyflawni yn cynnwys 5 amcan:

Amcan 1: Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd: sut y byddwn yn cyrraedd rhieni a gofalwyr â'n negeseuon allweddol am bwysigrwydd siarad â babanod a phlant bach, ymgysylltu â nhw a chwarae gyda nhw.

Mae brandio penodol wedi'i ddyfeisio ar gyfer y negeseuon allweddol, ac mae cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael gwell gwybodaeth a'u bod yn deall pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd eu plentyn, fel y gallant ddarparu amgylchedd dysgu cyfoethog o ran iaith yn y cartref.

Amcan 2: Gwella'r broses o adnabod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn plant 0 i 4 blwydd 11 mis oed: sut y byddwn yn safoni'r broses asesu ac yn nodi problemau o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar.

Mae gwaith wedi dechrau i adolygu adnoddau adnabod anghenion yn gynnar o ran y Saesneg, ac i ddatblygu adnodd addas ar gyfer y Gymraeg. Bydd safoni'r broses adnabod anghenion ar gyfer plant 0 i 4 blwydd 11 mis oed yn sicrhau bod plant yn cael eu cyfeirio i'r person iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn.

Amcan 3: Rhoi ymyriadau ar waith ar sail tystiolaeth: sicrhau bod ymyriadau amserol ar sail tystiolaeth yn cael eu rhoi ar waith i blant ag anghenion a nodwyd.

Caiff ymyriadau sy'n ymwneud â rhianta, iechyd meddwl babanod, a lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hadolygu a'u cyhoeddi. Bydd hyn yn help i sicrhau bod ymyriadau priodol ar sail tystiolaeth mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu cynnig lle bo angen er mwyn gwella sgiliau plant a lleihau'r risg y bydd anghenion yn y maes yn effeithio ar eu datblygiad a'u lles.

Amcan 4: Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu: sut y byddwn yn sicrhau bod y gweithlu gofal plant yn hynod hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi ymyriadau ar gyfer plant a theuluoedd lle y nodwyd anghenion o ran datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae fideos hyfforddi dwyieithog wedi'u datblygu ar gyfer ymarferwyr ac arolygwyr. Mae llwybr hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael ei ddatblygu, ac mae cwrs byr ar-lein yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu yn cael ei addasu i'r cyd-destun Cymreig a'i gyfieithu i'r Gymraeg. Bydd hyn yn help i sicrhau bod y gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi'i hyfforddi i lefel uchel ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi plant a theuluoedd lle y nodwyd anghenion o ran datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd hyn yn sicrhau bod plant yn cael y cymorth priodol gan y rheini sydd agosaf atynt.

Amcan 5: Gwreiddio lleferydd, iaith a chyfathrebu ym mholisiau Llywodraeth Cymru: sut y byddwn yn adolygu ein polisiau a'n strategaethau er mwyn sicrhau eu bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a thu hwnt.

Mae Cydgysylltwyr Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu cenedlaethol wedi cyfrannu at weithgorau ar 'Agor Llwybrau' (cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar) ac at fframwaith

ansawdd Addysg a Gofal Plentynod Cynnar. Mae ffrydiau cyllid y blynyddoedd cynnar wedi cael cymorth i sicrhau bod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael ei ystyried yn eu gwariant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod polisiâu a strategaethau perthnasol yn adlewyrchu pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu o'r blynyddoedd cynnar a thu hwnt. Bydd pob menter bolisi i'r dyfodol yn cwmpasu'r nod o gefnogi dinasyddion yng Nghymru i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd wedi'u nodi. Bydd hyn yn helpu i ledaenu'r neges bod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn fusnes i bawb.

Mae Gweinidogion a swyddogion wedi cydweithio ar gynllun cyflawni lleferydd, iaith a chyfathrebu, a bydd hyn yn parhau drwy gydol y broses o'i weithredu er mwyn sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cael cymorth i gyflawni eu potensial.

Sut mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod effaith Covid-19 ar ddatblygiad plant o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr effaith sylweddol y gallai pandemig Covid-19 fod wedi'i chael ar ddatblygiad plant a phobl ifanc, yn benodol mewn perthynas â'u sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Datblygiad Plant a ddosbarthwyd i Awdurdodau Lleol. Roedd y Gronfa Datblygiad Plant yn targedu cymorth er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion canlynol a nodwyd, fel ffordd o gefnogi plant a theuluoedd i ddod dros effeithiau mesurau'r cyfnodau clo estynedig yn ystod y pandemig:

- Datblygiad sgiliau motor manwl a bras
- Datblygiad cymdeithasol a chorfforol
- Datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Yn sgil cyllid i ddatblygu gweithlu Therapyddion Lleferydd ac iaith y GIG ac annibynnol, achredwyd 105 o therapyddion yn diwtoriaid 'It Takes Two To Talk' Hanen; achredwyd 30 o diwtoriaid 'Learning Language and Loving It' Hanen; achredwyd 18 o diwtoriaid 'Working with 0-3's' Elklan; ac aeth 5 yn diwtoriaid 'Signalong'.

Darparwyd cyllid i bob un o'r Byrddau Iechyd a'r tri gwasanaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu arbenigol iawn yng Nghymru i'w cefnogi i brynu adnoddau a hyfforddiant i ymdopi â'r galw uwch a ragwelir ar wasanaethau.

Defnyddiwyd cronfeydd ychwanegol a neilltuwyd i ddod dros Covid er mwyn sefydlu lleferydd, iaith a chyfathrebu yng ngwaith ehangach y blynyddoedd cynnar, megis matrices aeddfedrwydd y Gronfa Ymyrraeth Gynnar sy'n cael ei addasu i'r cyd-destun

Cymreig (<https://www.eif.org.uk/resource/eif-maturity-matrix-maternity-and-early-years>) a Care Aims sy'n cael ei dreialu mewn dwy ardal o Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen rhoi'r lle canolog i blant a phobl ifanc mewn cynlluniau adfer, cynnwys y plant a'r bobl ifanc hynny yn y broses o gynllunio polisiau, a buddsoddi yn y broses o'u cefnogi i oresgyn effeithiau'r pandemig i sicrhau manteision ar unwaith, yn y tymor hir ac i'r dyfodol a'r cenedlaethau i ddod.